OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1990

## Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015

### Yr amodau sydd i'w bodloni gan weithredwr cronfa ddata

**6.**—(1) O'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym ymlaen, rhaid i weithredwr cronfa ddata—

(a) meddu digon o gynhwysedd cronfa ddata i storio yn electronig, ac adalw, yr holl fanylion a ddarperir iddo gan geidwaid yn unol â rheoliad 3;

(b) cadw copïau wrth gefn o'r holl ddata hyn yn ddyddiol, mewn cyfleuster diogel oddi ar y safle;

(c) darparu unrhyw wybodaeth yn rheoliad 5, y gofynnir amdani gan berson awdurdodedig;

(d) darparu unrhyw wybodaeth yn rheoliad 5 y gofynnir amdani gan geidwad ci, mewn perthynas â'r ci hwnnw;

(e) cynnal system ar gyfer adnabod pobl a awdurdodwyd at ddibenion y Rheoliadau hyn, sy'n gwneud ymholiadau ynglŷn â chŵn y cofnodir eu manylion yn ei gronfa ddata;

(f) cynnal system ar gyfer adnabod ceidwaid cŵn, sy'n gwneud ymholiadau ynglŷn â chŵn y cofnodir eu manylion yn ei gronfa ddata;

(g) cadw cofnodion i ddangos bod gweithredwr y gronfa ddata yn cydymffurfio â gofynion y rheoliad hwn;

(h) cynnal system ar gyfer ateb ceisiadau teleffon a cheisiadau ar-lein am fanylion a gedwir yn ei gronfa ddata, drwy gydol yr amser;

(i) cynnal system ar gyfer ailgyfeirio ymholiadau teleffon ynglŷn â chŵn y cofnodir eu manylion mewn cronfeydd data eraill sy'n cydymffurfio â pharagraff (2)(a), at weithredwyr y cronfeydd data hynny; a

(j) gallu ailgyfeirio yn awtomatig unrhyw gais ar-lein, ynglŷn â chŵn y cofnodir eu manylion mewn cronfeydd data eraill sy'n cydymffurfio â pharagraff (2)(a), i'r cronfeydd data hynny.

(2) Rhaid i weithredwr cronfa ddata—

(a) rhoi ar gael i weithredwyr cronfa ddata perthnasol eraill sy'n gweithredu yn unol â'r rheoliad hwn yr wybodaeth sydd ei hangen i ganiatáu i'r gweithredwyr cronfeydd data eraill hynny benderfynu pa rifau microsglodyn sy'n ymwneud â chŵn y cofnodir eu manylion yn y gronfa ddata honno; a

(b) meddu system ar gyfer ateb ymholwyr yn uniongyrchol ynglŷn ag unrhyw ymholiad a dderbynnir yn unol â pharagraff (1)(i) neu (1)(j).

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "gweithredwr cronfa ddata perthnasol" ("*relevant database operator*") yw gweithredwr cronfa ddata—

(a) sy'n honni ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliad hwn; a

(b) nad yw Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno hysbysiad iddo o dan reoliad 7(2)(a).

(4) Yn y rheoliad hwn ystyr "cais ar-lein" ("*on-line request*") yw cais a gyflwynir i weithredwr cronfa ddata yn y modd y darperir ar ei gyfer gan wefan y gweithredwr cronfa ddata.